DEDDF COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU ETC. 2013

Gorchymyn Sir y Fflint (Cymunedau) 2026

*Gwnaed - - - - **[04/11/2026]***

A ddaw i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Mae Cyngor Sir y Fflint ("y Cyngor"), yn unol ag adran 25 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno adroddiad i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") dyddiedig mis Mehefin 2026 ar ei arolwg o drefniadau cymunedol yn Sir y Fflint a'i argymhellion ar gyfer newidiadau iddynt.

Mae'r Comisiwn wedi cytuno i weithredu argymhellion y Cyngor heb addasiadau.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i argymhellion y Cyngor gael eu cyflwyno i'r Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn gwneud y Gorchymyn canlynol wrth arfer y pŵer a roddir iddo gan adran 38(1) Deddf 2013.

Teitl a chychwyn

1.–(1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir y Fflint (Cymunedau) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym yn yr etholiad llywodraeth leol nesaf.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn–

Mae "Map A" yn golygu'r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Sir y Fflint ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

Mae "Map B" yn golygu'r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Sir y Fflint ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

Mae "Map C" yn golygu'r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Sir y Fflint ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn;

Mae "Map D" yn golygu'r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Sir y Fflint ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn;

lle dangosir ffin ar fap sy'n mynd ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troedffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, dylid ei thrin fel petai'n mynd ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae gan eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag yn Rhan 3 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, ac eithrio i'r graddau y mae bwriad croes yn ymddangos.

Newidiadau i ardal llywodraeth leol

3. Gwneir newidiadau yn ardal llywodraeth leol Sir y Fflint yn unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn.

Tref Bwcle – newid i ardaloedd ward gymunedol

5. Mae'r rhan o ward gymunedol Pen-y-ffordd yng Nghymuned Pen-y-ffordd a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrddlas ar Fap A:

(a) yn cael ei throsglwyddo i Dref Bwcle.

Cymuned Cilcain – newid i ardaloedd ward gymunedol

7. Mae'r rhan o ward gymunedol Pantymwyn yng Nghymuned y Waun a Phantymwyn a ddangosir wedi'i lliwio'n las ar Fap B:

(a) yn cael ei throsglwyddo i ward Rhydymwyn yng Nghymuned Cilcain.

Tref Cei Connah – newid i ardaloedd ward gymunedol

7. Mae'r rhan o ward Drefol Golftyn yn Nhref Cei Connah a ddangosir wedi'i lliwio'n fwrgwyn ar Fap C:

(a) yn cael ei throsglwyddo i ward Canol yn Nhref Cei Connah.

8. Mae'r rhan o ward Drefol Golftyn yn Nhref Cei Connah a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrdd ar Fap D:

(a) yn cael ei throsglwyddo i ward Canol yn Nhref Cei Connah.

Wedi'i selio â sêl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar yr **4ydd** diwrnod o **Dachwedd 2026**

[04/11/2026]


Karen Jones

Cadeirydd

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

ATODLEN 1


MAP A – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARD GYMUNEDOL – CYMUNED PEN-Y-FFORDD A THREF BWCLE (WARD DWYRAIN BISTRE)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

ATODLEN 2


MAP B – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARD GYMUNEDOL – WARDIAU CYMUNEDOL Y WAUN A PHANT-Y-MWYN (WARD PANTYMWYN) A CHILCAIN (WARD RHYDYMWYN)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

ATODLEN 3


MAP C – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARD DREFOL – WARDIAU TREFOL CEI CONNAH (WARD GOLFTYN A WARDIAU CANOL)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

ATODLEN 4

MAP D – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARD DREFOL – WARDIAU TREFOL CEI CONNAH (WARD GOLFTYN A WARDIAU CANOL)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 38(1) Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), yn gweithredu argymhellion a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint ("y Cyngor"). Adroddodd y Cyngor ym mis Mehefin 2026 ar ei arolwg o ffiniau cymunedol o dan adran 25 Deddf 2013.

Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i ffiniau wardiau trefol Cei Connah, a wardiau cymunedol Rhydymwyn yng Nghymuned Cilcain, Pantymwyn yng Nghymuned y Waun a Chymuned Pen-y-ffordd. Mae'r gorchymyn hwn yn gwneud newidiadau i ffiniau'r cymunedau a'r wardiau cymunedol hynny.

Mae copïau argraffedig o fapiau ffiniau A i D y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â nhw wedi'u hadneuo a cheir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir y Fflint [**ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol)**].